# Tips defnyddiol

# ar gyfer magu plant cadarnhaol

**(addas o 0-7)**

Mae magu plant yn gadarnhaol (neu yn awdurdodol) yn ddull o fagu plant sy'n annog rhieni i ganolbwyntio ar y cadarnhaol – yr hyn y mae plentyn yn ei wneud yn iawn, a'i gryfderau. Mae'n seiliedig ar ymddygiad cynnes, parchus a chadarnhaol. Dylai plant fod â pherthynas gariadus gyda'u rhieni ynghyd â goruchwyliaeth, strwythur a ffiniau priodol i oedran, sy'n rhoi cyfle iddynt ffynnu a byw bywydau hapus ac iach.

- Rhowch ganmoliaeth gynnes am ymddygiad da.
- Gosodwch reolau teuluol clir sy'n addas ar gyfer oedran a gallu eich plentyn.
- Cynlluniwch ymlaen llaw ar gyfer adegau pan mae plant yn gallu ymddwyn mewn ffyrdd heriol (e.e. ewch â snaciau neu degan ar deithiau siopa).
- Ceisiwch feddwl am beth sy'n digwydd o dan wyneb ymddygiad anodd – a yw eich plentyn yn llwglyd, dig, unig neu flinedig?
- Cysylltwch deimlad â'r ymddygiad e.e. 'Rwy'n credu dy fod yn taflu'r teganau oherwydd dy fod yn grac, ond dydyn ni ddim yn brifo pobl'.
- Datblygwch drefn sy'n gweithio i'ch teulu.
- Byddwch yn esiampl o'r ymddygiad rydych eisiau ei weld – ni fydd plentyn yn deall nad oes hawl taro neu weiddi os mai dyna maen nhw'n gweld oedolion yn ei wneud.

**A chofiwch eich bod yn gwneud y gorau y gallwch chi.**

**Am fwy o wybodaeth a chyngor ar fagu plant ewch i:**
**llyw.cymru/rhowchamseriddo**

**Magu plant. Rhowch amser iddo.**

**Parenting. Give it time.**

@parentsinwales
@parenting.wales